O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2023 Rhif 1429 (Cy. 254)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Llandarcy, Castell-nedd Port Talbot i'r Rhigos, Rhondda Cynon Taf) (Terfynau Cyflymder Dros Dro) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Rhagfyr 2023* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ionawr 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Llandarcy, Castell-nedd Port Talbot i'r Rhigos, Rhondda Cynon Taf) (Terfynau Cyflymder Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ionawr 2024.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984([1]) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol, neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 06:00 o'r gloch ar 1 Ionawr 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

---

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

### Atal Dros Dro

**6.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy’n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o’r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 yn weithredol.

### Cymhwyso

**7.**—(1) Nid yw’r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Rhagfyr 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

Y darnau o gerbytffyrdd tua’r dwyrain a thua’r gorllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o, ac yn cynnwys cerbytffordd gylchredol gyfan Cylchfan Llandarcy hyd at ochr ddwyreiniol yr A465 wrth bont Seidins Pwll Glo’r Tower sydd â’r rhif adnabod ‘370’ i’r gorllewin o hen Gylchfan y Rhigos (a fydd yn cael ei hadnabod fel Cylchfan Trewaun cyn bo hir) yn y Rhigos.

Y darnau cyfan o’r ffyrdd ymuno ac ymadael tua’r dwyrain a thua’r gorllewin y gefnffordd rhwng y darnau o’r cerbytffyrdd a ddisgrifir uchod.